# Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru - Cofnodion

## Dydd Llun, 17 Tachwedd 2025 15:30-16:30 MS Teams

**Mynychwyr**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai – Cadeirydd eitem 6 ymlaen

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Lis Burnett (Bro Morgannwg)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Dimitri Batrouni (Casnewydd)
Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Gary Pritchard (Ynys Môn)

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Swyddogion Llywodraeth Leol**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid
Jane Thomas – S151 Cyngor Powys (Ysgrifennydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru (ac eithrio arsylwyr)**

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Chynllunio (rhan o'r cyfarfod)
Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd
Clare Blake – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi'r Dreth Gyngor
Ben Crudge – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Ardrethi Annomestig
Emma Smith – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Andrea Melvin – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Freya Gregory – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol – (Cofnodion)
Andrew Wagstaff – Ysgrifennydd Preifat
Tal Michael – Cynghorydd Arbennig
David Willis - Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd

**Ymddiheuriadau**

Y Cyng. Paul Griffiths (Sir Fynwy)
Y Cyng. Darren Price (Sir Gaerfyrddin)
Lisa Hayward – Swyddog Polisi Cyllid (Refeniw a Budd-daliadau)

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Gan y byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai yn hwyr oherwydd ei chyfarfod blaenorol, diolchodd Emma Smith i'r aelodau am fynychu, a chroesawodd y Cyng. Gary Pritchard. Cytunodd y grŵp i ddefnyddio Microsoft Copilot i helpu swyddogion i ddrafftio cofnodion y cyfarfod hwn.

**Eitem 5: Symleiddio Budd-daliadau Cymru**

2. Cyflwynodd y Cyng. Anthony Hunt sleidiau ar y gwaith parhaus sy'n mynd rhagddo i symleiddio budd-daliadau Cymru. Dywedodd y Cyng. Hunt fod Cyngor Partneriaeth Cymru wedi llofnodi Siarter Budd-daliadau Cymru ym mis Ionawr 2024, a fydd yn ceisio creu system fudd-daliadau fwy cydlynol a thosturiol. Nod y siarter yw ei gwneud hi'n haws ac yn symlach i bobl gael mynediad at fudd-daliadau a weinyddir yng Nghymru, drwy eu bod yn gorfod cysylltu unwaith yn unig i gael mynediad at gymorth.

3. Esboniodd y Cyng. Hunt fod y gwaith o weithredu'r siarter yn cael ei arwain gan y Grŵp Llywio ar gyfer Symleiddio Budd-daliadau Cymru sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Grŵp Uwch Swyddogion Cyfrifol sy'n dod ag arbenigedd cyfredol i'r gwaith.

4. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddwyd trywydd Cam 1 Symleiddio Budd-daliadau Cymru, y cytunwyd arno hefyd drwy Gyngor Partneriaeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio ar dri o Fudd-daliadau Cymru – Prydau Ysgol am Ddim, Grant Hanfodion Ysgol, a chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Dewiswyd y budd-daliadau hyn gan eu bod yn fudd-daliadau craidd a ddarperir gan awdurdodau lleol i gefnogi'r bobl dlotaf yn ein cymunedau.

5. Roedd y Cynghorydd Hunt wedi cwrdd yn ddiweddar â Chadeirydd y Grŵp Llywio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol i drafod y cynnydd a wnaed. Gofynnodd y Cyng. Hunt i'r grŵp hwn barhau i gymryd y camau sydd eu hangen i leihau cymhlethdod mynediad at fudd-daliadau, i gynyddu'r defnydd o'r data presennol er mwyn targedu'r rheini sydd â hawliadau, ac i helpu i ddatblygu atebion a rennir ar gyfer symleiddio'r broses fudd-daliadau yng Nghymru.

6. Esboniodd Claire Germain sut yr oedd y gwaith yn cael ei symud yn ei flaen mewn dau brif faes. Pan fo unigolion yn hysbys i'r cyngor trwy rannu data'r Credyd Cynhwysol, mae'r data hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer cofrestru awtomatig ar draws 20 allan o 22 o awdurdodau i gefnogi ceisiadau am ostyngiad treth gyngor. I'r rheini nad ydynt eisoes yn hysbys i gynghorau, roedd y ffocws ar symleiddio'r broses ymgeisio am fudd-daliadau am ddim. Disgrifiodd Claire

brosiect peilot sydd ar y gweill gyda rhai awdurdodau i weld sut y gellid defnyddio data i adnabod a thargedu unigolion yn fwy effeithiol.

7. Diolchodd y grŵp i'r Cyng. Hunt a Claire am eu cyflwyniad.

## Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol

8. Gofynnodd Emma Smith i'r grŵp am eu sylwadau ar gofnodion y cyfarfodydd blaenorol. Nododd SH fod dau gam gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol wedi eu cwblhau.
   Cytunodd y grŵp ar gywirdeb y cofnodion o'r cyfarfodydd blaenorol. (Papurau 1a ac 1b).

## Eitem 3: Adroddiad Cynnydd (drafft) yr Is-grŵp Dosbarthu

9. Rhoddodd Andrea Melvin grynodeb o Adroddiad Cynnydd drafft yr Is-grŵp Dosbarthu, gan nodi'r argymhellion a wnaed gan yr Is-grŵp Dosbarthu ar y setiau data i'w defnyddio yn setliad 2026-27. Tynnodd Andrea sylw at setiau data lle'r oedd cyfartaledd a system raddol yn cael eu defnyddio i reoli anwadalwch yn y data. Hefyd dywedodd Andrea fod yr Is-grŵp Dosbarthu wedi cyfarfod bedair gwaith yn 2025, un ohonynt mewn gweithdy wyneb-yn-wyneb a fynychwyd gan swyddog o Lywodraeth yr Alban i drafod sut mae eu setliad nhw yn cael ei gynhyrchu. Hefyd, nododd Andrea sut yr oedd yr Is-grŵp Dosbarthu wedi cynnal trafodaethau ar y gwaith adolygu fformiwla parhaus.

10. Diolchodd Reg Kilpatrick i Andrea a'r Is-grŵp Dosbarthu am eu gwaith trwy gydol y flwyddyn, gan ofyn i'r grŵp am eu sylwadau ar yr adroddiad.

11. Diolchodd y Cyng. Andrew Morgan i'r Is-grŵp Dosbarthu am eu gwaith, a chytunodd â'r angen i ddefnyddio'r data diweddaraf. Roedd y Cyng. Morgan hefyd yn cydnabod yr angen i ddiweddaru'r data a'r pwysoliadau hynaf, er mwyn adlewyrchu'r angen presennol i awdurdodau allu gwario. Holodd y Cyng. Morgan sut y gellid cyflymu'r gwaith hwn a sut y byddai'n cael ei reoli ar ôl yr adolygiad fformiwla cychwynnol hwn, er mwyn sicrhau na fyddai'r data a ddefnyddiwyd yn y setliad yn mynd mor allan o ddyddiad eto.

12. Cyflwynodd Emma Smith Simon Edwards sydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r cynllun gwaith ar gyfer adolygu'r fformiwla, gan roi sicrwydd y byddai gan Simon eitem yn nes ymlaen yn y cyfarfod a fyddai'n rhoi ateb llawnach i hyn. Sicrhaodd Emma y grŵp hefyd fod Simon wedi defnyddio adnoddau gan KAS o fewn Llywodraeth Cymru a Data Cymru, lle'r oedd hynny'n briodol.

## Eitem 4: Diweddariad ar yr adolygiad o fformiwla'r setliad

13. Cyflwynodd Simon Edwards ddiweddariad ar y gwaith o adolygu'r fformiwla, gan ddisgrifio'r ffrydiau gwaith i'w cwblhau ar gyfer gweithredu'r fformiwlâu newydd yn setliad 2028-29. Esboniodd Simon mai ef oedd yr unig adnodd dynodedig ar hyn

o bryd, ond bod tîm y setliad yn ystyried adnodd dadansoddwr ychwanegol. Esboniodd Simon nad oedd y gwaith yn syml, gan ei fod nid yn unig yn ystyried diweddaru setiau data i sicrhau eu bod ar eu ffurf ddiweddaraf, ond ei fod hefyd yn ystyried a oedd setiau data eraill a fyddai'n esbonio'n fwy priodol angen yr awdurdodau lleol i wario. Pwysleisiodd Simon hefyd fod yr adolygiad o fformiwla yn endid ar wahân i'r cwantwm, gan ei fod yn edrych ar ddosbarthu'r cyllid sydd ar gael yn y ffordd decaf.

14. Ceisiodd y Cyng. Dimitri Batrouni eglurder ynghylch diweddaru methodoleg y setliad. Esboniodd Simon na fydd methodoleg gyffredinol Asesiadau o Wariant Safonol – a adeiladwyd o Grant Cynnal Refeniw, Ardrethi Annomestig, a lefelau treth gyngor tybiedig – yn cael ei newid yn yr adolygiad hwn. Y fethodoleg y mae'r cynllun gwaith adolygu fformiwla yn cyfeirio ati yw ail-fireinio'r asesiadau wedi'u seilio ar ddangosyddion sy'n defnyddio ystod o ddadansoddiadau atchweliad a modelu i gynhyrchu pwysoliadau cywir ar gyfer y dangosyddion.

15. Ceisiodd y Cyng. Batrouni hefyd eglurder ar y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y gwaith adolygu fformiwla. Eglurodd Reg y byddai Simon a thîm y setliad yn gwneud y dadansoddiad, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Is-grŵp Dosbarthu sy'n cynnwys swyddogion o ALlau, CLlLC a Data Cymru. Yna byddai'r Is-grŵp Dosbarthu yn gwneud argymhellion i'r Is-grŵp Cyllid ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai a fyddai'n gwneud y penderfyniad.

**Eitem 6: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

16. Ymddiheurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai am golli dechrau'r cyfarfod. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ddiweddariad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer yr ail gam a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd, a chadarnhaodd yr wybodaeth a oedd wedi ei rhannu eisoes, cynnydd cyfartalog o 2.5% gyda'r nod o derfyn isaf o 2.3%. Mae cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddosbarthu yn y flwyddyn ariannol hon wedi'i ymgorffori yn y llinell sylfaen, gan gynnwys cyllid yswiriant gwladol cyflogwyr, cyflogau athrawon a staff y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, a thâl cydgysylltwyr ADY. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai mai 24 Tachwedd fyddai'r dyddiad cyhoeddi ar gyfer y setliad dros dro, ac y byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth ddangosol am grantiau penodol.

17. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi bod yn chwilio am opsiynau ar gyfer hyblygrwydd ychwanegol i ALlau a'i fod yn archwilio diystyriadau statudol. Yn bennaf yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer ad-dalu benthyciadau. Roedd y gallu i eithrio rhan o'r gwariant o gyfrifiadau gofynion y gyllideb hefyd yn cael ei archwilio. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai y byddai'r hyblygrwydd hwn ar waith ar sail amser cyfyngedig yn unig. Roedd y

rhain wedi'u rhannu gan swyddogion gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru, ac roedd ymgynghoriad wedi'i dargedu ar agor ar adeg y cyfarfod.

18. Dywedodd Emma Smith y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei anfon at swyddogion adran 151, prif weithredwyr, awdurdodau lleol, CLlLC, Archwilio Cymru, a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn nes ymlaen yr wythnos honno.

19. Diolchodd y Cyng. Andrew Morgan i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, a chroesawodd yr hyblygrwydd ychwanegol posibl fel rhywbeth wrth gefn, ond gan ailadrodd cais llywodraethau lleol am setliad o 4%. Byddai hynny'n golygu na fyddai'n rhaid i ALlau ddefnyddio'r hyblygrwydd hwnnw. Mae'r Cyng. Morgan yn deall y rhesymeg dros gyllideb, ond roedd yn gobeithio y byddai'r pleidiau gwleidyddol yn dod at ei gilydd i basio cyllideb dreigl sy'n rhoi 4% i lywodraeth leol.

20. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i'r Cyng. Morgan am nodi safbwynt llywodraeth leol, a chytunodd fod gobaith am broses gyllideb fuddiol, ond tynnodd sylw hefyd at yr angen am y mesurau diogelu hyn mewn llywodraeth leol.

**Eitem 6: Unrhyw fater arall**

21. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai a'r aelodau i'r Cyng. Darren Price am ei waith o fewn y grŵp, gan ddymuno'n dda ar gyfer y dyfodol gan ei fod wedi ymddiswyddo fel yr arweinydd ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.